



Datganiad blynyddol ynghylch Gonestrwydd Ymchwil

Tachwedd 2019

Rhagair

1. Ein gweledigaeth yw bod yn un o brifysgolion mwyaf blaenllaw'r byd, sy'n rhagorol o ran ymchwil ac yn neilltuoel yn addysgol, yn cael ein gyrru gan greadigrwydd a chwilfrydedd. Rydym am fod yn brifysgol sy'n cyflawni ei rhwymedigaethau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd i Gaerdydd, i Gymru, i'r Deyrnas Unedig ac i'r byd. ([Y Ffordd Ymlaen, 2018-2023](#)).
2. Mewn ymchwil, ein nod yw bod ymysg y Prifysgolion gorau yn y DU, yn creu gwybodaeth, adnoddau a pholisïau newydd mewn partneriaeth â busnes, diwydiant, llywodraeth a phrif rhanddeiliaid eraill, wedi'i hwyluso gan amgylchedd ymchwil bywiog a chynhwysol. Mae'r deilliannau ymchwil yn rhan hanfodol o gyflymu'r cyfraniadau mae Prifysgol Caerdydd yn eu gwneud ym meysydd iechyd, cyfoeth, diogelwch a lles cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru, yn y DU ac yn fyd-eang. Mae gonestrwydd ymchwil, moeseg ac ymchwil agored yn rhan hanfodol o'r weledigaeth hon.
3. Mae Prifysgol Caerdydd wedi ymrwymo i gynnal egwyddorion [Concordat i Gefnogi Gonestrwydd Ymchwil Prifysgolion y DU \(Concordat\)](#), ac mae ganddi systemau cadarn ar waith i gefnogi ei hymchwilyr i gynnal ymchwil hyd at y safonau proffesiynol uchaf.

Diben a chyd-destun

4. Gwella atebolrwydd a sicrhau yr ymgwymerir â mesurau at gynnal safonau uchel o onestrwydd ymchwil, mae'r Concordat yn argymhell bod cyflogwyr ymchwilwyr yn paratoi datganiad blynyddol byr ar gyfer eu corff llywodraethu sy'n darparu'r canlynol:
 - 4.1. Crynodeb o weithredoedd a gweithgareddau yr ymgwymerwyd â nhw er mwyn cynnal a chryfhau dealltwriaeth a chymhwysiad problemau gonestrwydd ymchwil;
 - 4.2. Sicrhau bod y prosesau sydd ar waith er mwyn delio â chyhuddiadau o gamymddwyn yn dryloyw, cadarn, a theg, a'u bod yn parhau i fod yn addas at anghenion y sefydliad; a
 - 4.3. datganiad lefel uchel ynghylch unrhyw ymchwiliadau ffurfiol i gamymddygiad ymchwil a gafwyd,
5. Dyma drydydd Datganiad blynyddol y Brifysgol ynghylch Gonestrwydd Ymchwil (Datganiad Blynyddol) ac mae wedi'i greu ar gyfer corff llywodraethol y Brifysgol (ei 'Chyngor') yn ôl argymhellion y Concordat. Bydd y Datganiad Blynyddol ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Brifysgol.

Y cyfnod o dan sylw yn y Datganiad Blynyddol hwn

6. Mae'r Datganiad Blynyddol hwn yn crynhoi'r camau a'r gweithgareddau yr ymgwymerwyd â hwy yn ystod Blwyddyn Academaidd 2018/2019 er mwyn cryfhau gonestrwydd ymchwil. Mae hefyd yn rhoi'r sicrwydd a'r datganiadau sy'n ofynnol ar gyfer camymddygiad dros yr un cyfnod.
7. I gael gwybodaeth fanwl am ddull gweithredu a fframwaith cyffredinol y Brifysgol o ran gonestrwydd ymchwil a chamymddygiad ymchwil, gweler [Datganiad Blynyddol cyntaf y Brifysgol](#), a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2017.

Gweithredoedd a Gweithgareddau (2018/2019)

8. Mae gonestrwydd ymchwil wedi parhau i fod yn brif faes ffocws i'r Brifysgol yn ystod Blwyddyn Academaidd 2018/2019, pan gyflwynwyd mentrau newydd i gryfhau ac ymgorffori gonestrwydd ymchwil ar draws y sefydliad. Nodir isod y prif weithgarwch yn ystod y cyfnod hwn.
9. Adolygiad o Gôd Ymarfer Gonestrwydd Ymchwil a'i Lywodraethu
 - 9.1. Mae'r Côt yn cynnwys fframwaith y Brifysgol ar gyfer cynnal ymchwil mewn modd cyfrifol; mae'n gymwys ar gyfer pob ymchwilydd, ym mhob disgyblaeth. Pwyllgor Gonestrwydd a Moeseg Ymchwil y Brifysgol (URIEC) sy'n gyfrifol am gynnal y Côt ac adolygu ei effeithlonrwydd, ond mae'r cyfrifoldeb am gydlynu'r adolygiad wedi'i ddyrannu i Dîm Llywodraethu Gwaith Ymchwil y Brifysgol (Gwasanaethau Ymchwil ac Arloesedd) (RIS) y Brifysgol. Yn ôl argymhellion y Concordat, mae'r Côt yn destun adolygiad cyfnodol i wneud yn siŵr ei fod yn parhau'n addas i'r diben.
 - 9.2. Canlyniad ymarfer 2018/2019 oedd diwygiadau i'r Côt i adlewyrchu'r ddiweddariadau i bolisiau'r Brifysgol, fframweithiau proffesiynol allanol, ac adborth a gafwyd gan dimau Gwasanaethau Proffesiynol y Brifysgol, Arweinwyr Uniondeb Ymchwil ac Aelodau a Swyddogion URIEC.
 - 9.3. Mae'r diwygiadau'n cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol):
 - Cofrestrfeydd Treialon Clinigol
Diweddariadau sy'n adlewyrchu disgwyliad y Brifysgol bod yn rhaid cofrestru'r Treialon Clinigol ar gofrestrfa Treialon Clinigol briodol; bod yn rhaid cynnal y gofrestrfa; a bod yn rhaid anfon y canlyniadau i'r gofrestrfa ar ôl i'r treial ddod i ben.
 - Gwrthdaro rhwng Buddiannau
Estyniad sylweddol i'r arweiniad a roddir i ymchwilwyr i'w galluogi i nodi a rheoli gwrthdaro rhwng buddiannau'n well, gan gynnwys rhestr nad yw'n gynhwysfawr o sefyllfaoedd lle gallai gwrthdaro godi rhwng buddiannau.
 - Defnyddio metrics yn gyfrifol

Ychwanegu adran newydd i adlewyrchu ymrwymiad y Brifysgol i Ddatganiad San Francisco ar Asesu Ymchwil, sef ei hymrwymiad i ddefnyddio metrigau'n gyfrifol wrth asesu perfformiad ymchwil.

10. Rhaglen Hyfforddiant Ar-lein Gonestrwydd Ymchwil

10.1. Yn ystod Blwyddyn Academaidd 2018/2019, roedd yn dal i fod yn rhaid i'r holl staff newydd a ymunodd â'r Brifysgol ar gytundeb Ymchwil, neu Addysgu ac Ymchwil, a'r holl fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig newydd, gwblhau'r hyfforddiant.

10.2. Yn ystod Blwyddyn Academaidd 2018/2019, fe wnaeth 1,048 o staff ac ymchwilwyr sy'n fyfyrwyr gwblhau'r rhaglen hyfforddiant.

10.3. O ddechrau Blwyddyn Academaidd 2019/2020, bydd yn ofynnol i bob aelod o staff academaidd i gwblhau'r hyfforddiant. Mae'r penderfyniad i ymestyn y grŵp o staff y mae'n ofynnol iddynt gwblhau'r hyfforddiant yn amlygu ymhellach ymrwymiad y Brifysgol i feithrin diwylliant o onestrwydd ymchwil ar draws y sefydliad.

11. Adolygu Gweithdrefnau Moeseg Ymchwil

11.1. Mae'r Brifysgol wedi cynnal adolygiad o'i Gweithdrefnau Moeseg Ymchwil ar gyfer ymchwil sy'n cynnwys pobl, deunydd dynol neu ddata dynol.

11.2. Canlyniad yr adolygiad oedd datblygu nifer o ddogfennau diwygiedig y cawsant eu cymeradwyo gan URIEC ym mis Mai 2019, sef

- Templed ar gyfer Pwyllgorau Moeseg Ymchwil Ysgolion (SREC)
- Templed ar gyfer Profforma am Gais am Adolygiad Moeseg
- Templed ar gyfer Llythyr Cymeradwyo SREC
- Templed ar gyfer Gwybodaeth i Gyfranogwyr
- Templed ar gyfer Ffurflen Ganiatâd

11.3. Bydd proses fesul cam o roi'r Gweithdrefnau Moeseg diwygiedig a'r ddogfennaeth ategol ar waith yn mynd rhagddi ar ddechrau Blwyddyn Academaidd 2019/2020.

11.4. Yn ogystal â chyflwyno Adroddiadau Blynyddol yr Ysgol ynghylch gweithgaredd moeseg ymchwil, bydd ymarfer monitro manylach yn cael ei gynnal er mwyn asesu proses yr Ysgolion o roi'r gweithdrefnau moeseg newydd ar waith, ac a oes unrhyw enghreifftiau o arfer da wedi dod i'r amlwg y gellir eu rhannu rhwng ysgolion.

12. Ymchwil Agored a Thryloywder

Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ymchwil Agored (ORTFG) y Brifysgol ar ddiwedd 2018, gyda mandad i wneud argymhellion i URIEC. Mae'r argymhellion cyntaf wedi'u gwneud ac mae ORTFG yn datblygu cynllun gweithredu manwl i wneud yn siŵr bod Prifysgol Caerdydd ar flaen y gad o ran arfer da, ac yn mynd i'r afael yn weithredol â

meysydd ymchwil penodol (e.e. adroddiadau cofrestredig, cofrestru Treialon Clinigol ar gofrestrfeydd cyhoeddus).

13. Gonestrwydd o ran Delwedd

Cymeradwywyd yr Arweiniad ar gyfer Gonestrwydd o ran Delwedd ym maes Ymchwil gan URIEC ym mis Ionawr 2019, ac mae ar gael i ymchwilwyr.

14. Defnydd cyfrifol o fetrigau ymchwil

Sefydlwyd Gweithgor DORA (Datganiad San Francisco ar Asesu Ymchwil) y Brifysgol yn 2019, gyda mandad i gefnogi'r broses o roi strategaethau ac ymchwil ar waith i alluogi egwyddorion DORA i gael eu mewnosod yn briodol yn yr amgylchedd ymchwil a diwylliant y Brifysgol. Mae'r DWG wedi datblygu cynllun gweithredu manwl a byddant yn rhoi adroddiadau rheolaidd ynghylch cynnydd i URIEC.

15. Ymgysylltu allanol a rhannu arferion da

15.1. Yn ystod Blwyddyn Academaidd 2018/2019, mae'r Brifysgol wedi parhau i ymgysylltu â grwpiau a sefydliadau allanol er mwyn rhannu arfer da ac archwilio trefniadau llywodraethu effeithiol ar gyfer hyrwyddo gonestrwydd ymchwil. Yn benodol, mae'r Brifysgol yn parhau i fod yn aelod gweithgar o Fforwm Gonestrwydd Ymchwil Grŵp Russell (RGRIF) ac yn rhoi adborth o ddiwyddiadau RGRIF i'r Tîm Llywodraethu Gwaith Ymchwil yn fwy eang, ac URIEC.

15.2. Mae'r Brifysgol yn parhau i danysgrifio i'r Swyddfa Gonestrwydd Ymchwil y DU (UKRIO) ac aeth i Gynhadledd Flynyddol UKRIO 2019.

Camau a gynllunnir

16. Yn ogystal â'r gweithgareddau a gynhaliwyd yn ystod Blwyddyn Academaidd 2018/2019, mae nifer o weithgareddau gonestrwydd ymchwil wedi'u cynllunio ar gyfer y Flwyddyn Academaidd nesaf (mae camau cychwynnol eisoes wedi'u cymryd ar eu cyfer gan RIS a/neu URIEC), gan gynnwys:

16.1. Ymchwil Agored

Bydd cynllun gweithredu Ymchwil Agored y Brifysgol yn cael ei gwblhau a'i roi ar waith. Bydd hynny'n cynnwys adolygiad o rolau Arweinydd Gonestrwydd Ymchwil Colegau ac Ysgolion, i gynnwys cyfrifoldeb dros ymchwil Agored a defnyddio metrigau'n gyfrifol.

16.2. Data ymchwil sy'n Sensitif o ran Diogelwch (SRR)

Adolygiad o bolisi SRR y Brifysgol

16.3. Gweithdrefnau Camymddygiad Ymchwil Academaidd

Caiff y weithdrefn Camymddygiad Ymchwil Academaidd ei hadolygu i wneud yn siŵr ei bod yn alinio â'r Concordat Diwygiedig ar gyfer Cefnogi Gonestrwydd o ran Ymchwil ac arferion da sy'n dod i'r amlwg yn y maes hwn.

Gweithdrefn Camymddygiad Ymchwil Academaidd (Gweithdrefn ARM)

17. Mae Prifysgol Caerdydd yn cymryd unrhyw gyhuddiad o gamymddwyn ym maes ymchwil o ddifrif ac mae wedi paratoi gweithdrefn i ymdrin â chyhuddiadau o'r fath yn unol ag egwyddorion y Concordat a'r arweiniad a gyhoeddwyd gan Swyddfa Unplygrwydd Ymchwil y DU.
18. Mae tri cham i'r weithdrefn ARM. Ym mhob cam, gall y cyhuddiadau gael eu gollwng neu eu cymryd ymlaen i'r cam nesaf:
 - 18.1. Cam Rhagarweiniol lle bydd yr Unigolyn a Enwir, mewn ymgynghoriad â'r PVC ac fel arfer o fewn 20 diwrnod gwaith, yn cynnal adolygiad rhagarweiniol o'r cyhuddiad. Er mwyn dod i benderfyniad, caiff yr Unigolyn a Enwir geisio cyngor gan arbenigwr mewnol ynghylch difrifoldeb a hygrededd y pryderon.
 - 18.2. Cam sgrinio lle bydd Panel o hyd at dri aelod o staff mewnol sy'n meddu ar arbenigedd perthnasol a statws academaidd, fel arfer o fewn 30 diwrnod gwaith, yn cynnal gwerthusiad cychwynnol o'r holl ddeunydd perthnasol sy'n ymwneud â'r cyhuddiad a ddarparwyd gan yr Achwynydd a'r Atebydd, gan ofyn am eglurhad pellach os oes angen. Bydd y Panel Sgrinio yn paratoi adroddiad ysgrifenedig, cyfrinachol o'i werthusiad a'i benderfyniad, a bydd yn ei gyflwyno i'r Unigolyn a Enwir.
 - 18.3. Cynhelir Cam Ymchwiliad Ffurfiol, lle sefydlir panel yn cynnwys Cadeirydd annibynnol, diduedd a dau aelod diduedd gydag arbenigedd a statws priodol. Dylai'r Cadeirydd ac o leiaf un o'r ddau aelod fod o du allan i'r Brifysgol, ac ni ddylent fod yn cael eu cyflogi gan y Brifysgol nac yn gweithio o dan gontract i'r Brifysgol. Ni ddylai'r aelod mewnol fod yn aelod o staff yn yr un Ysgol â'r Atebydd.
 - 18.4. Ar hyn o bryd, mae gweithgor wedi'i sefydlu i adolygu'r weithdrefn ARM yn unol â'r Concordat diwygiedig, y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi yn nhymer yr hydref, 2019. Bydd y weithdrefn ddiwygiedig yn cael ei chyflwyno i URIEC gytuno arni.

Datganiad ar ymchwiliadau ffurfiol i Gamymddygiad Ymchwil Academaidd

19. Yn ystod blwyddyn academaidd 2018/2019, cafwyd dau gyhuddiad/cyfres o gyhuddiadau o dan weithdrefn ARM y Brifysgol. Ymhlith y cyhuddiadau hyn:
 - 19.1. Cafodd un (set o gyhuddiadau) eu cyfeirio ar gyfer adolygiad rhagarweiniol a diystyrwyd y cyhuddiadau fel bod yn wacsaw, yn niwsans, yn faleisus neu â diffyg sylwedd.
 - 19.2. Argymhellwyd bod y cyhuddiad arall yn destun ymchwiliad panel sgrinio. Daeth y panel sgrinio i'r casgliad nad oedd tystiolaeth o Camymddygiad Ymchwil Academaidd

Paratoi'r Datganiad Blynyddol hwn

20. Paratowyd y Datganiad Blynyddol hwn gan Dîm Llywodraethu Gwaith Ymchwil y Brifysgol, Gwasanaethau Ymchwil ac Arloesedd y Brifysgol a Thîm Gwasanaethau

Sicrwydd y Brifysgol, Cynllunio Strategol a Llywodraethu. Cyflwynwyd drafft o'r datganiad yn y lle cyntaf i URIEC ei ystyried a chynnig sylwadau yn ei gylch. Cymeradwywyd y Datganiad Blynyddol gan URIEC ar 08 Hydref 2019.

21. Cyflwynwyd y Datganiad Blynyddol mewn cyfarfod pellach o'r Brifysgol er gwybodaeth neu ddadl, gan gynnwys Bwrdd Gweithredol y Brifysgol (21 Hydref 2019), y Senedd (06 Tachwedd 2019), y Pwyllgor Archwilio (13 Tachwedd 2019) a'r Pwyllgor Llywodraethu (14 Tachwedd 2019), cyn mynd ymlaen i gael cymeradwyaeth y Cyngor ar 25 Tachwedd 2019.

Yr Athro Kim Graham
Rhag Is-Ganghellor Ymchwil, Arloesedd a Menter
Tachwedd 2019

Allwedd Talfyriadau

ARM	Camymddygiad Ymchwil Academaidd
Côd Ymarfer	Côd Ymarfer Gonestrwydd a Llywodraethu Gwaith Ymchwil
DORA	Datganiad ar Asesu Ymchwil
DWG	Gweithgor DORA
ORTFG	Grŵp Gorffen a Gorchwyl Ymchwil Agored
RGRIF	Fforwm Gonestrwydd Ymchwil Grŵp Russell
RIS	Gwasanaethau Ymchwil ac Arloesedd
SREC	Pwyllgor Moeseg Ymchwil yr Ysgol
YSD	Ymchwil Sensitif o ran Diogelwch
UKRIO	Swyddfa Gonestrwydd Ymchwil y DU
URIEC	Pwyllgor Gonestrwydd a Moeseg Ymchwil y Brifysgol